



Cwynion am forgeisi gwaddol

Camau i'w cymryd os ydych chi'n amau bod eich morgais gwaddol wedi'i gamwerthu i chi



**Gwasanaeth
Cyngori Ariannol**

- ➔ Am beth fedrwch wneud cwyn
- ➔ Terfynau amser
- ➔ Sut caiff iawndal ei gyfrifo

Yma i'ch helpu

Mae **Gwasanaeth Cyngori Ariannol** yn annibynnol. Sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl gwneud y mwyaf o'i arian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chyngor ar morgeisi, rydyn ni'n cynnig gwybodaeth ar ystod eang o themâu ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu gwneud penderfyniadau gwybodus ac i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadvice.service.org.uk/cy

Cyngor di-duedd am ddim

 ar-lein

 dros y ffôn

Mae'r canllaw hwn yn addas i chi os ydych chi am wneud cwyn am sut werthwyd eich morgais gwaddol i chi.

Os ydych chi'n amau bod eich morgais gwaddol wedi'i gamwerthu i chi, mae'n bosibl y gallwch wneud cwyn ac yna hawlio iawndal.

Cynnwys

Y pethau cyntaf i'w wneud	2
Adolygu eich morgais gwaddol	4
Gwneud cwyn	8
Cysylltiadau defnyddiol	12

Gweithredwch yn gyflym am fod yna terfynau amser ar gwynion ynglŷn â morgeisi gwaddol a gam-werthwyd.



Y pethau cyntaf i'w wneud

Cychwyn arni

1

Adolygwch eich morgais gwaddol

Darllenwch y llythyron amcanestyniad o ddarparwr eich morgais gwaddol a gweithredwch os bydd angen.

Gweler tudalen 4

2

Meddyliwch os oes rhesymau gennych chi dros gwyno

Mae rhaid i chi ddangos bod gennych chi resymau dros gwyno **a'ch** bod ar eich colled yn ariannol cyn eich bod yn cael hawlio iawndal.

Gweler tudalen 4

3

Gweithredwch yn gyflym

Gall fod yna derfyniadau amser ar eich sefyllfa. Gall y cwmni wrthod eich cwyn os yw'n cael ei gwneud tu allan i'r terfyn amser.

Gweler tudalen 8

4

Mynnwch gyngor nawr os ydych chi'n wynebu diffyg

Hwya'n y byd yr oedwch, ucha'n y byd bydd y gost. Cychwynnwch nawr drwy chwilio am 'Delio gyda diffyg gwaddol' yn moneyadvice.service.org.uk/cy.

Sicrhewch nad ydych chi'n talu i mewn eich polisi neu'n rhoi'r gorau i'ch taliadau heb geisio cyngor proffesiynol. Gallwch fod ar eich colled fel arall.

Cyngor ymarferol



Dewch o hyd i unrhyw waith bapur y cawsoch pan brynoch chi'r polisi gwaddol ac ewch dros yr hyn y dywedwyd wrthyh y pryd hynny.




Os penderfynwch chi wneud cwyn cadwch gopiâu o lythyron a nodiadau o alwadau ffôn. Anfonwch gopiâu o ddogfennau ond cadwch y rhai gwreiddiol bob tro.



Os nad ydych chi ar eich colled ond rydych chi'n dal i fod yn anhapus gyda'r risgiau sydd ynghlwm wrth bolisi gwaddol, efallai y cewch chi drosglwyddo i forgais ad-dalu. Cysylltwch â darparwr eich morgais.

I ganfod beth all eich taliadau misol fod, defnyddiwch y **Cyfrifiannell morgais** ar wefan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

moneyadvice.service.org.uk/cyfrifiannell-morgais.



Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn rheoleiddio cwmnïoedd sy'n gwerthu polisiâu gwaddol ac mae } rheolau yn eu lle sy'n golygu bod rhaid iddyn nhw ddelio gyda'ch cwyn mewn ffordd deg.

Adolygu eich morgais gwaddol

Os cawsoch chi forgais llog yn unig efallai cafodd polisi gwaddol ei werthu i chi. Caiff y cyfuniad hwn ei alw'n forgais gwaddol.

Mae polisi gwaddol yn buddsoddi eich arian gyda'r bwriad o'i dyfu digon i dalu'r llog gwreiddiol pan ddaw tymor y morgais i ben.

Oherwydd gall berfformiad buddsoddiadau amrywio, gan amlaf, does yna ddim sicrwydd y bydd y polisi yn tyfu digon i allu ad-dalu'r morgais ar ddiwedd y tymor.

Os nad ydych chi'n siwr os oes gennych chi forgais gwaddol neu beidio, gwiriwch gyfriflen eich morgais neu cysylltwch â'ch benthyciwr.

Llythyron i hysbysu bod yna ddiffyg yn eich gwaddol

Dylech chi fod wedi derbyn llythyron gyda chyfriflen flynyddol eich polisi gwaddol i'ch hysbysu p'un ai yw eich polisi chi ar drywydd i ad-dalu'ch morgais. Cânt eu galw yn **llythyron amcanestyniad**. Bydd y llythyr yn eich hysbysu:

- o'r swm o unrhyw ddiffyg a ddisgwyllir
- o'r opsiynau sydd ar gael i chi
- o ba gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd.

Os nad ydych chi wedi derbyn llythyr amcanestyniad, mynnwch un wrth eich darparwr. Darllenwch ef a gweithredwch os bydd angen.

Pryd fedrwch wneud cwyn

Mae'n bosibl y bod gennych hawl i wneud cwyn os methodd eich cynghorydd wneud **un** o'r canlynol:

- rhoi gwybod i chi sut fyddai'ch arian yn cael ei fuddsoddi ac esbonio'r risgiau oedd ynghlwm
- esbonio bod polisi gwaddol yn ymrwymiad hir dymor sydd yn aml yn rhoi adenillion gwael os ydych yn rhoi terfyn ar y polisi yn gynnar
- gwirio eich bod yn gyfforddus gyda'r risgiau o fod eich arian yn cael ei gysylltu â pherfformiad buddsoddiad
- gwirio bod yna disgwyliad rhesymol y byddech chi'n medru cadw i fyny gyda'r taliadau hyd nes ddiwedd y morgais
- esbonio unrhyw ffioedd a chostau a sut fyddant yn effeithio'r adenillion ar y gwaddol.

Mae'n bosib y gallwch hefyd wneud cwyn os:

- yw'ch polisi gwaddol yn dod i ben wedi i chi ymddeol ac ni wnaeth y cynghorydd wirio os byddech chi'n gallu fforddio'r premiwm unwaith i chi ymddeol
- argymhellwyd i chi ganslo un polisi gwaddol a chymryd un arall. Mae polisi gwaddol yn fuddsoddiad hir dymor sydd yn aml yn rhoi adenillion gwael os ydych yn rhoi terfyn ar y polisi yn gynnar
- yw'ch polisi gwaddol yn parhau ar ôl i log eich morgais dod i ben
- addawyd i chi y bydd y polisi gwaddol yn talu'ch morgais yn llwyr. Cyhyd â'ch bod chi'n gallu dangos y dywedwyd wrthy'ch y byddai'r polisi gwaddol yn bendant yn talu digon i dalu eich morgais yn llwyr ac roedd hyn yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r cwmni. Prin mae hyn yn digwydd.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Gwiriwch eich bod wedi derbyn llythyr amcanestyniad i'ch hysbysu am sefyllfa eich gwaddol. Os nad ydych chi wedi derbyn un, mynnwch un wrth eich darparwr.
- ➔ Ni fyddwch yn medru hawlio iawndal os nad ydych chi wedi bod ar eich colled yn ariannol.
- ➔ Os prynoch chi eich polisi rhwng 29 Ebrill 1988 a 31 Rhagfyr 1994 dylech chi fod wedi derbyn dogfennaeth am fanylion y polisi o'r enw 'manyion y cynnyrch'. Os prynoch chi'r polisi ar neu wedi 1 Ionawr 1995, dylech chi fod wedi derbyn dogfen 'Nodweddion Allweddol'.

Efallai y byddwch chi dal yn gallu hawlio iawndal hyd yn oed os ydych chi wedi talu i mewn eich polisi gwaddol.



Sut caiff iawndal ei gyfrifo

Gan amlaf, caiff iawndal ei selio ar beth fyddai'ch sefyllfa nawr petai chi wedi cymryd morgais ad-dalu yn hytrach na morgais gwaddol. Nid yw wedi'i selio ar werth disgwylledig y polisi.

Dylai cwmnïoedd ddilyn canllawiau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA) wrth gyfrifo iawndal.

Os nad yw'n glir sut gyfrifodd y cwmni'r iawndal, neu os ydych chi'n amau bod yna gamgymeriad, holwch am ddadansoddiad o'r ffigyrau.

Bydd y cyfrifiad yn cymharu:

- premiymau'r polisi gwaddol a llog y morgais rydych chi wedi talu a gwerth ildio presennol o bolisi eich morgais gwaddol, gyda'r
- taliadau morgais ac ad-daliadau cyfalaf y *byddech* wedi'u talu ar forgaïs ad-dalu cyfwerth, a faint o gyfalaf y *byddech* wedi talu oddi ar y morgais.

Mewn rhai achosion, caiff ffactorau eraill eu hystyried. Er enghraifft:

- os oedd angen yswiriant bywyd
- os oedd y polisi wedi rhedeg i mewn i'ch ymddeoliad a dylai'r cwmni a werthodd y polisi i chi fod wedi rhagweld na fuasech chi'n gallu ei fforddio ar ôl i chi beidio â gweithio
- y math o bolisi gwaddol.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Nid yw iawndal wedi'i selio ar werth disgwylledig eich polisi.
- ➔ Mae'r modd y mae'r iawndal yn cael ei gyfrifo yn dibynnu ar eich amgylchiadau.
- ➔ Nid oes rhaid i chi dalu treth ar iawndal fel arfer.
- ➔ Os cewch gynnig iawndal yn unol â chanllawiau'r AYA, gallwch honni ei fod yn deg.
- ➔ Os mae'r cwmni a werthodd y polisi i chi yn ategu'ch cwyn, dylai'r cwmni eich helpu i drawsnewid i forgaïs ad-dalu. Bydd disgwyl iddyn nhw hefyd dalu am unrhyw ffioedd neu gostau y taloch chi wrth newid eich morgais.

Os ydych chi wedi newid i forgaïs ad-dalu yn barod

Fel arfer, cyfrifir yr iawndal hyd at bryd newidoch chi i forgaïs ad-dalu. Mae hyn oherwydd dechreuwyd y polisi gwaddol yn wreiddiol ar gyfer ad-dalu morgais.

Os rhaid talu treth ar iawndal?

Os mae'r iawndal yn eich dychwelyd i'r sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe baech chi wedi cymryd allan morgais ad-dalu, yna, gan amlaf, bydd dim rhaid talu treth ar yr iawndal.

Os mae cyfrifiad yr iawndal yn cyfrif llog ychwanegol, bydd angen i chi dalu treth ar y llog.

Ddim yn siŵr ble rydych chi'n sefyll o ran trethi? Cysylltwch â Chyllid a Thollau EM (CThEM), ewch i **hmrc.gov.uk** neu ffoniwch y llinell gymorth Trethi ar 0300 200 3300.

Mae polisi gwaddol yn cynnwys yswiriant bywyd i ad-dalu'r morgais os byddwch yn marw'n gynnar. Os ydych yn dod i ben â'r gwaddol a bod angen yswiriant bywyd arnoch, yn gyffredinol, bydd angen i chi wneud trefniadau eraill.

Os derbyniwch chi iawndal, ystyriwch ddefnyddio'r arian i leihau'r swm sy'n ddyledus ar eich morgais.



Gwneud cwyn

Mae gwneud cwyn yn rhwydd ac yn rhad ac am ddim.

Os ydych chi am wneud cwyn, **gwnewch hi nawr** gan fod yna terfynau amser.

Gan amlaf, mae'n well gwneud cwyn yn ysgrifenedig.

Os ydych chi'n ffonio sicrhewch eich bod yn cadw nodiadau manwl o'ch sgwrs, gan gynnwys enw'r person a siaradodd â chi, y dyddiad a'r amser y ffonioch chi.

Beth i'w wneud

■ Gwnewch gwyn i'r cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi.

Gall hyn fod yn gynghorydd ariannol, y cwmni gwaddol neu eich benthyciwr morgais. Gwiriwch gyda'r cwmni gwaddol os nad ydych yn siwr i bwy ddylech chi wneud cwyn.

Mae rhaid i gwmni oedd sydd yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA) gael weithdrefn cwynion ffurfiol a rhaid iddynt eich hysbysu o sut i'w defnyddio.

Ceisiwch ddod o hyd i'r holl waith papur ac unrhyw nodiadau y gwnaethoch ar y pryd.

Gallwch gael copïau o waith papur gwerthiannau o'r cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi os na fedrwch ddod o hyd iddyn nhw.

Pan wnewch chi gwyn, gall y cwmni yrru arolwg atoch er mwyn i chi ei lenwi a'i ddychwelyd iddyn nhw.

Cwblhewch gymaint â phosib o'r arolwg – byddai'n cyflymu'r broses.

■ Os ydych chi'n anfodlon gyda penderfyniad y cwmni, gallwch fynd â'ch cwyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (FOS). Rhaid i chi wneud hyn **o fewn chwe mis** o dderbyn llythyr 'ateb terfynol' o'r cwmni.

Mae'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn annibynnol ac yn cynnig proses di-dâl a syml o ddatrys anghydfodau. Ffoniwch eu canolfan gyswllt am gymorth.
0800 023 4567 neu 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Gwneud cwyn os...

Cymroch chi'ch polisi cyn 29 Ebrill 1988.

Nid oedd gwerthu a rhoi cyngor am bolisiau gwaddol yn cael eu rheoleiddio hyd nes 29 Ebrill 1988. Roedd rhai darparwyr wedi cytuno'n wirfoddol i ganiatáu i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol edrych ar gwynion cyn y dyddiad hwn. Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol i wirio os wnaeth y cwmni rydych yn gwneud cwyn amdano gytuno i'r trefniadau gwirfoddol yma.

■ Os gwnaeth y darparwr neu'r cynghorydd gytuno i'r trefniadau gwirfoddol.

Mae rhaid iddyn nhw ddelio â'ch cwyn yn ôl rheolau'r AYA bob tro, sy'n datgan bod rhaid iddyn nhw ddelio â'r cwyn mewn modd teg. Mae'r rhain yn cynnwys eich hysbysu o bryd fedrwch chi gyfeirio eich cwyn at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.

■ Os na wnaeth y cwmni gytuno i'r trefniadau gwirfoddol.

Gallwch ddal i gwyno wrth y darparwr neu gynghorwr, ond does dim rhaid iddynt ddilyn rheolau'r AYA bob tro. Mae hyn hefyd yn golygu na allwch chi fynd â'ch cwyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol os nad ydych chi'n gallu datrys eich cwyn gyda'r cwmni.

Cawsoch eich cynghori cyn 29 Ebrill 1988 ond fe gymeroch chi'r polisi wedi'r dyddiad hwnnw.

Mae'n bosibl y gallwch gyfeirio eich cwyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, hyd yn oed os na wnaeth y cwmni gytuno i'r trefniadau gwirfoddol. Gwiriwch gyda'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol os nad ydych chi'n siwr.

Prynoch chi'ch polisi ar gyngor eich cyfreithiwr.

Gwnewch gwyn i'r cyfreithiwr yn gyntaf. Os ydych chi'n anfodlon gyda'i benderfyniad, ac fe brynoch chi'ch polisi cyn 1 Rhagfyr 2001, ewch â'ch cwyn i'r cynllun cwynion priodol, yn ddibynnol ar ble rydych yn byw:

- Ombwdsmon y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr
- Comisiwn Cwynion Cyfreithiol yr Alban
- Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Ngogledd Iwerddon
- Os prynoch chi'ch polisi gwaddol ar gyngor cyfreithiwr **ar neu wedi 1 Rhagfyr 2001**, bydd angen i chi ddilyn y drefn arferol – gweler tudalen 8.

Os yw'ch cyfreithiwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu, cysylltwch â'r gymdeithas gyfreithiol briodol.

Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

Terfynau amser ar gwynion

Mae yna terfynau amser ar gwynion. Os ydych chi'n gwneud cwyn y tu allan i'r terfynau yma, gall gwmni wrthod eich cwyn ar sail ei fod tu allan i amser – gelwir hyn yn '**gwaharddiad amser**'. Gall hefyd ofyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol i wrthod y cwyn.

Er enghraifft, gall eich cwyn gael ei gwrthod os:

- derbyniwch llythyr sy'n rhybuddio bod risg uchel o ddiffyg, yna rydych yn derbyn llythyr dilynol sy'n rhoi o leiaf chwe mis o rybudd o 'ddyddiad terfynol' a bydd rhaid ichi anfon cwyn erbyn y dyddiad hwnnw, a
- bod y 'dyddiad terfynol' hwnnw o leiaf dair blynedd ar ôl y dyddiad y derbynioch chi'r llythyr cyntaf ac o leiaf chwe blynedd ers ichi brynu'r polisi; ond rydych chi'n cwyno ar ôl y 'dyddiad terfynol'.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Os dymunwch chi wneud cwyn, gwnewch hi nawr – gall amser fod yn brin.
- ➔ Ni fyddwch yn gorfod talu i wneud cwyn i'r cwmni a werthodd y polisi i chi. Mae'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio hefyd.

Ond gallwch ddal fynd at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol hyd yn oed os yw'r cwmni'n gwrthod eich cwyn ar sail ei bod tu hwnt i'r amser os ydych chi'n amau bod:

- yna amgylchiadau eithriadol, neu
- gafodd y gwaharddiad amser ei roi yn anghywir.

Dylech wneud hyn **o fewn chwe mis o dderbyn llythyr 'ateb terfynol' o'r cwmni.**

Does dim rhaid i chi ddefnyddio cwmni rheoli cwynion

Mae rhai cwmnïoedd yn helpu pobl i ganlyn eu cwynion gyda chwmnïoedd gwasanaethau ariannol a'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn gyfnewid am dâl – gan amlaf yn ganran o unrhyw iawndal.

Cyn cytuno, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- bod defnyddio'r cwmnïoedd yma ddim yn cynyddu'ch cyfle o lwyddo yn eich cwyn
- bod rhai cwmnïoedd yn gofyn am dâl o flaen llaw ac efallai bydd dal rhaid i chi dalu os penderfynwch beidio â'u defnyddio nhw
- os ydych chi'n cytuno i dalu ffi neu ran o'r iawndal ac mae'ch cwyn yn llwyddiannus, bydd llai o arian gennych yn y pendraw i'w roi tuag at dalu'ch morgais.

Dydyn ni ddim yn argymhell defnyddio cwmnïoedd rheoli cwynion, ond os ydych chi yn ystyried defnyddio un, gwiriwch:

- y costau a'r manteision o ddefnyddio'r cwmni
- y ffioedd a thelerau
- bod y cwmni wedi'i reoleiddio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n rhan o gorff proffesiynol megis y Gymdeithas Gyfreithiol.

Gweler Cysylltiadau defnyddiol ar dudalen 12.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Mewn rhai achosion, allwch chi dal fynd i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol hyd yn oed os cafodd eich cwyn ei gwrthod ar sail ei bod tu hwnt i'r amser.
- ➔ Os penderfynwch chi gyflogi rhywun i ddelio â'ch cwyn ar eich rhan, bydd rhaid i chi dalu eu costau eich hun. Gall hyn olygu talu rhan o unrhyw iawndal rydych chi'n ei hawlio.
- ➔ Dydy defnyddio cwmnïoedd rheoli hawliadau ddim yn cynyddu'ch cyfle o ennill.

Canllawiau printiedig am ddim



Delio â diffyg yn eich morgais gwaddol



- Yr opsiynau sydd ar gael
- Bethau i'w hysbysu
- Helpu chi i wneud y trefnwr cywir



Anawsterau wrth dalu'ch morgais

Beth sydd angen i chi ei wneud nawr a sut i roi trefn ar bethau

- Y camau i'w cynrydd nawr
- Beth yw'ch opsiynau
- Cyngor ddurdd am ddim



Gallwch fforddio'ch morgais nawr, ond beth os...?



- Cynllunio ar gyfer newid neu'n amgylchiadau
- Deall gwahaniaeth fathau o ffordd
- Trefnu eich anghenion cynlluo ac ymwirant

Mae ein canllawiau yn rhoi cyngor a gwybodaeth glir, ddiduedd am ystod o faterion a themâu ariannol.

moneyadvice.service.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim

Cysylltiadau defnyddiol

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngtori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl gwneud y mwyaf allan o'i arian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor,
awgrymiadau ac offer ar ystod eang
o themâu gan gynnwys rheoli arian
o ddydd i ddydd, cynilion,
cynllunio'ch ymddeoliad a'ch
dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a
chyngor am ddigwyddiadau sy'n
newid bywyd megis cychwyn teulu
neu golli swydd.

Am gyngor a mynediad at ein
hoffer a chynllunwyr, ewch i
 moneyadvice.service.org.uk/cy

**Neu ffoniwch linell Gwasanaeth
Cynghori Ariannol ar
0800 138 0555**

Typetalk
1800 1 0800 915 4622

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

0333 200 0110

01283 233 309

claimsregulation.gov.uk

I ddod o hyd i gyfreithiwr

Y Gymdeithas Gyfreithiol

020 7242 1222

lawsociety.org.uk

Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Ngogledd Iwerddon

028 9023 1614

lawsoc-ni.org

Cymdeithas y Cyfreithwyr yn yr Alban

0131 226 7411

lawscot.org.uk

Cwynion ac iawndal

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567

0300 123 9123

financial-ombudsman.org.uk

Cynllun Digolledu

Gwasanaethau Ariannol

0800 678 1100

020 7741 4100

fscs.org.uk

Ombwdsmon y Gyfraith (Cymru a Lloegr)

0300 555 0333

legalombudsman.org.uk

Comisiwn Cwynion Cyfreithiol yr Alban

0131 201 2130

scottishlegalcomplaints.org.uk

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

[illegible]



**Gwasanaeth
Cyngkori Ariannol**

Cwynion am forgeisi gwaddol yw un o'r canllawiau sydd ar gael o'r Gwasanaeth Cyngkori Ariannol. I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau ac i fynnu gopi, ewch i **📞 moneyadviceservice.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim**

Llinell Gymorth Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2018).
Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Gwasanaeth Cyngkori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: EMC_Apr18_Edition1_Welsh